**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

19 Hydref 2021

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Diddymwyd)

Trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil) yn ein cyfarfod ddydd Llun yr wythnos hon. Mae dau fater pwysig, sy'n codi pwyntiau tryloywder a hygyrchedd, yr hoffem eu codi gyda chi cyn inni ystyried sut y byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm.

Yn gyntaf, mae'r Memorandwm yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Mai 2021 ac mae'n darparu linc i'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, nid yw cymal 1 yn y fersiwn honno o'r Bil yn gymwys i Gymru.

Ar 7 Gorffennaf 2021, fe wnaethoch gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i ddeddfu "drwy geisio cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil Rating (Coronavirus) and Directors Disqualification (Dissolved Companies) Llywodraeth y DU… a fydd yn gweithredu i ddiystyru apelau Covid-19 ar sail… [newid sylweddol mewn amgylchiadau]. "

Yn dilyn hynny, diwygiodd Llywodraeth y DU y Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Medi 2021 i ymestyn cymhwysiad cymal 1 o'r Bil i Gymru. Yn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 10 Medi, dywedodd Llywodraeth y DU "The [UK] Government, at the request of the Welsh Government, tabled amendments to the Bill at Commons Report stage to extend application of Clause 1 to non-domestic rating lists compiled for the purposes of business rates in Wales (as well as lists for England)."

Ni chyfeirir at y materion hyn o gwbl yn y Memorandwm, a osodwyd ar 21 Medi 2021, a byddem yn croesawu eich esboniad dros eu hepgor.

Yn ail, yn eich datganiad ysgrifenedig ym mis Gorffennaf dywedasoch "Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno rheoliadau yng Nghymru a fydd yn cael effaith debyg i'r darpariaethau sydd i'w cynnwys ym Mil y DU, a byddai'r rheoliadau hynny yn gymwys nes y daw Bil y DU yn gyfraith. " Hyd y gwyddom, ni wnaed y rheoliadau hyn. Rydym wedi nodi bod Gweinidogion y DU wedi gwneud The Valuation for Rating (Coronavirus) (England) Regulations 2021 ym mis Mawrth, ac y bydd cymal 1(9) o'r Bil yn dirymu'r Rheoliadau os a phan fydd y Bil yn cael ei ddeddfu. Byddem hefyd yn croesawu eglurder ar y mater hwn, gan gynnwys y sefyllfa bresennol o ran y rheoliadau y cyfeirir atynt yn eich datganiad ysgrifenedig.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 2 Tachwedd 2021.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd